**COFNODION Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Gorffennaf 9fed, 2025 am 6.30yh.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr D. W. Hopkins (Cyn-Gadeirydd), H. Davies, J. W. Tandy (Cadeirydd), A. J. Evans (Is-Gadeirydd), R. A. Davies, R. Barnes.

**Yn mynychu arlein:** Y Cynghorwyr A. L. Thomas, A. W. Jones, D. Thomas

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr C. R. Thomas, L. Wilkins.

**746.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth y Cynghorwyr C. R. Thomas a L. Wilkins.

**747.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT**.

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**748.**

**Enwi'r pwyllgorau newydd a gyfunwyd, ac ychwanegu'r Pwyllgor at y Rheolau Sefydlog.**

Yng Nghyfarfod Cyffredin mis Mehefin penderfynwyd rhesymoli'r pwyllgorau, a gwanaethpwyd y cynnig canlynol gan y Cadeirydd i enwi'r strwythur pwyllgorau newydd:

- Pwyllgorau Parciau a Mannau Chwarae, Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac Amgylchedd i'w hadnabod fel y Pwyllgor Mannau Gwyrdd.
- Pwyllgorau Polisi a Chyflogaeth i'w cyfuno, a'u hadnabod fel y Pwyllgor Polisi a Chyflogaeth.
- Y Pwyllgor Cyllid i aros y ddigyfnewid, o dan yr un teitl.
- Y Pwyllgorau Datblygu Cymunedol a Chodi Proffil y Cyngor i gael eu cyfuno, i'w hadnabod fel y Pwyllgor Proffil Cymunedol.

- Y Pwyllgor Cynllunio, y Cyfarfod Cyffredin a'r Cyfarfod Statudol i aros yn ddigyfnewid o dan yr un teitlau.

**Argymhellwyd** derbyn y cynnig ac adrodd yn ôl i'w ddilysu yn y Cyfarfod Cyffredin ar ddiwedd mis Gorffennaf.

**749.**

**Y Clerc i ddiweddaru'r Cynghorwyr ynghylch y Polisïau Cyfredol.**

Roedd y Clerc wedi tynnu sylw at, a rhestru'r polisïau cyfredol sydd mewn grym, ac a restrir ar wefan y Cyngor, a gofynnodd am unrhwy awgrymiadau am Bolisïau ychwanegol. Ni dderbyniwyd unrhyw awgrym neu gynnig.

Nodwyd yr ymateb er mwyn ei ychwanegu at y cofnodion.

**750.**

**Trafodaeth am bolisi newydd ynghylch Cwynion Cyson neu Flinderus.**

Agorodd y Clerc y drafodaeth drwy ofyn am drafodaeth ynghylch y polisi Cwynion Cyson neu Flinderus a rannwyd yng Nghyfarfod Cyffredin mis Mai, a darllenodd brif bwyntiau'r Polisi.

Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cyng A. J. Evans, o'r farn y byddai'r polisi sydd eisoes yn ei le yn diogelu'r Cyngor yn achos unrhyw her o ran bod dau bolisi tebyg yn eu lle. Roedd y Cadeirydd, y Cyng J. W. Tandy o'r farn bod y polisi a oedd o dan sylw, sef y Polisi Ymddygiad Annerbyniol, wedi'i anelu'n fwy at Gynghorwyr. Aeth yr Is-Gadeirydd, y Cyng A. J. Evans, ati i ddarlen darn o'r polisi, ac roedd o'r farn y byddai modd ei ddarllen fel ei fod yn berthnasol i'r cyhoedd ac i gynghorwyr.

Roedd y Clerc **wedi cynnig** ei fod yn adolygu'r ddau bolisi, ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

**751.**

**Polisi ynghylch tendro pan na fyddwn yn derbyn tri ymateb – y Clerc i annog y drafodaeth.**

Dywedodd y Clerc ei fod, yn ddiweddar, wedi ceisio caffael tri dyfynbris am brofi dŵr yn eiddo'r Cyngor, ac wedi derbyn ond un ymateb.
Dywedodd yr Is-Gadeirydd y dylid, yn y fath amgylchiadau, dderbyn y ffaith bod y broses wedi digwydd, a dim ond un ymateb a oedd wedi'i dderbyn, ond roedd y Cyng A. Jones wedi

mynegi ei gonsyrn ynghylch y ffaith bod gofyn i'r cynghorwyr wneud penderfyniad heb iddynt weld y tendr. Roedd y Cadeirydd, y Cyng J. W. Tandy, wedi ymyrryd gan ddweud nad oedd y Cyngor, fel arfer, yn cael golwg o'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i dendrau.

Gofynnodd y Cyng A. Jones bod manylion y tendr yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgor, ac yn cael eu gosod gerbron y Cyfarfod Cyffredin nesaf, i'w dilysu.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn rhannu'r dyfynbris, a bod yr wybodaeth yn mynd gerbron y Cyfarfod Cyffredin fel rhan o'r cofnodion, er mwyn ei ddilysu.

**752.**

**Trafodaeth ynghylch Polisïau newydd i'w hystyried yn ystod 2025/26**

Roedd y Cadeirydd am godi un polisi penodol ynghylch cadw data a rhannu dogfennau; roedd yn sôn am anfon dogfennau lluosog, y mae angen eu storio ar weinydd cyfrifiadur, drwy ebost – ac nid yw'r dull yma yn cydfynd â'n dull 'gwyrdd' o wneud ein gwaith gweinyddol.

Cyhyd â bod y dogfennau'n hawdd i'w cyrchu, roedd y Cyng R. A. Davies o'r farn bod hyn i'w weld yn ymarferol, tra bod y Cyng D. W. Hopkins o'r farn bod y cyngor yn cael yr effaith lleiaf posibl ar yr amgylchedd drwy wneud hyn, a'i fod ddi-angen.

Dywedodd y Cyng A. Jones ei fod yn deall yr egwyddor sydd y tu wrth wraidd y mater, ond roedd o'r farn bod angen casglu mwy o wybodaeth cyn dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth. Gofynnodd y Cyng R. A. Jones bod y syniad yn cael ei astudio mewn mwy o fanylder, ac yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**Argymhellwyd** bod y Cadeirydd yn cydweithio gyda'r Clerc i lunio cynnig, i'w osod gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi yn ddiweddarach yn y Flwyddyn Ariannol.

**753.**

**Y Clerc i ddarparu diweddariad parthed â'r sefyllfa gyfredol ynghylch y ddau Gyfweliad Arfarnu Staff a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025.**

Eglurodd y Clerc bod y Cyfweliadau Arfarnu Staff wedi'u cynnal ym mis Mawrth, a bod ei arfarniad ef, yn rinwed ei swydd fel Clerc, wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd, a'i fod ef wedi llofnodi arfarniad y Swyddog Gweinyddol; roedd y ddau arfarniad yn llwyddiannus.

**Argymhellwyd** cynnwys hyn yn y cofnodion.

Rhoddwyd ddiweddariad gan y Cadeirydd; wedi iddo archwilio taflenni amser y ddau aelod o staff, roedd wedi sylwi bod y Swyddog Gweinyddol yn gweithio y tu hwnt i'w horiau contract. Roedd oriau'r Clerc yn amrywio, ac roedd yn gweithio llai o oriau yn rhai misoedd, a mwy ym misoedd eraill.

Roedd y Cadeirydd wedi cynnig bod y pwyllgor yn gwneud cais i'r Cyfarfod Cyffredin i ystyried ychwanegu 2.5 awr yr wythnos i oriau gwaith y Swyddog Gweinyddol, gan ymestyn

yr oriau wythnosol i 17.5 awr. Gofynnwyd i'r Clerc rhesymoli ei batrwm gwaith a dirprwyo peth o'i lwyth gwaith er mwyn cwtogi ar ei oriau. Roedd y Cadeirydd o'r farn ni allai'r Cyngor, fel cyflogwr cyfrifol, anwybyddu'r sefyllfa.

Roedd y Cynghorwyr R. A. Davies ac A. Jones ill dau wedi gofyn bod rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**Argymhellwyd** bod y Cadeirydd a'r Clerc yn cyflwyno adroddiad byr gerbron y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**754.**

**Y Clerc i roi diweddariad ynghylch hyfforddiant staff cyfredol.**

Rhoddod y Clerc ddiweddariad i'r pwyllgor, gan ddweud ei fod yn astudio am ei gymhwyster CILCA; fel y cofnodwyd cyn hyn, roedd wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am y cymhwyster.

Roedd y Swyddog Gweinyddol wedi gwneud cais i fynychu cwrs er mwyn uwchraddio'i sgiliau Microsoft Excel, ac er mwyn cytuno â'w chais, byddid yn dod o hyd i gwrs addas.

**Argymhellwyd** cofnodi hyn yn y cofnodion, i'w ddilysu yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**755.**

**Y Clerc i amlinellu'r cyfleoedd am hyfforddiant a gynigir i gynghorwyr newydd eu hethol, a chynghorwyr di-brofiad.**

Agorodd y Clerc y drafodaeth drwy ddatgan bod chwech o'r cynghorwyr a etholwyd yn fwyaf diweddar heb fynychu unrhyw fath o hyfforddiant, a gofynnodd bod y cynghorwyr yn ymateb pan y byddai'n rhannu'r cyrsiau hyfforddiant mwyaf diweddar sy'n cael eu darparu gan Un Llais Cymru, yn enwedig y Cwrs Sefydlu Cynghorydd Newydd a'r Hyfforddiant Côd Ymddygiad.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn ebostio'r manylion ynghylch y cyfleoedd am hyfforddiant diweddaraf.

**756.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.08 yh.